# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Rob Stewart | Adran Etholiadol: | Treforys |
|---|---|---|---|

| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth:** | Arweinydd ac Aelod y Cabinet ar Gyllid a Strategaeth |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwyf wedi parhau i weithio'n galed wrth gynrychioli pobl Treforys. Rwyf wedi parhau i gynnal cymorthfeydd ward a mynd i lawer o gyfarfodydd cefnogi Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT), cyfarfodydd preswylwyr a chyfarfodydd gweithredu yn y gymuned. Rwyf wedi gweithredu i ymdrin â phryderon preswylwyr dros ymddygiad gwrthgymdeithasol, sbwriel, atgyweirio ffyrdd a phriffyrdd, anghenion tai a materion lleol eraill. Roeddwn yn falch iawn o'm gwaith gyda'm cydweithwyr ward i atal prif Swyddfa'r Post yn Stryd Woodfield rhag cau, darparu basgedi crog ac arddangosfeydd blodau trwy gydol y ward a dod â goleuadau Nadolig yn ôl i Dreforys am y tro cyntaf ers 20 mlynedd. Roedd y digwyddiad cynnau'r goleuadau'n llwyddiant ysgubol yr aeth dros 2,500 o bobl iddo. Rwyf hefyd wedi gweithio'n galed i ymgyrchu yn erbyn gwerthu neu ddefnyddio gwefrau cyfreithlon yn Nhreforys i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y sylweddau peryglus iawn.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 3 / 3 | 100% |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 0 / 5 | 0% |
| Y Cabinet | 13 / 14 | 93% |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 0 / 1 | 0% |
| Y Cyngor | 15 / 17 | 88% |
| Grŵp Ymgynghorol Datblygu | 1 / 1 | 100% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 3 / 7 | 43% |
| Panel Ariannu Allanol | 4 / 4 | 100% |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol | 1 / 1 | 100% |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 2 / 6 | 33% |
| **CYFFREDINOL** | **42 / 59** | **71%** |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

Yn dilyn cael f'ethol yn arweinydd ym mis Medi 2014, ymddiswyddais fel aelod o rai o'r pwyllgorau uchod.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Rwyf wedi bod i gyfarfodydd y cyrff canlynol yn ogystal â'r cyfarfodydd a restrwyd uchod:

Briffio Corfforaethol

Cwmni Rheoli Stadiwm Abertawe
Rhanbarth Gwella Busnes (BID)
Bwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe
Fforwm Partneriaeth Bae Abertawe
Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
Partneriaeth Ranbarthol

Euthum hefyd i'r canlynol:

Cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) lleol
Cyfarfodydd preswylwyr
Cyfarfod masnachwyr
Cymorthfeydd lleol
Cyfarfodydd gweithredu
Cyfarfodydd ymgynghori cynllunio lleol
Cyfarfodydd cymunedol

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Roeddwn yn falch iawn o allu helpu i ariannu (gyda'm cydweithwyr ward) a dod â'r arddangosfeydd blodau hyfryd i Dreforys eleni. Rhoddodd y cyhoedd groeso cynnes iawn i'r rhain a chawsant effaith fawr ar ymdeimlad llawer o ardaloedd.

Roeddwn hefyd yn falch iawn o ganlyniad yr ymgyrch hir roeddwn yn ei chefnogi i achub prif Swyddfa'r Post yn Stryd Woodfield, Treforys. Mae Swyddfa'r Post bellach wedi cael gwared ar y bygythiad i gau'r swyddfa hon. Dyma gyfleuster cymunedol hynod bwysig.

Roeddwn hefyd yn falch iawn o'r digwyddiad a drefnais (gyda'm cydweithwyr ward a masnachwyr lleol) i ddod â goleuadau Nadolig yn ôl i Dreforys am y tro cyntaf ers dros 20 mlynedd. Roedd y digwyddiad cynnau'r goleuadau'n llwyddiant ysgubol gyda thros 2,500 yn bresennol i glywed corau'n canu a gweld Siôn Corn yn cyrraedd ar ben injan dân goch, fawr. Hoffwn ddiolch i'r heddlu, y gwasanaeth tân, swyddogion y cyngor, busnesau lleol a phawb arall a wnaeth hyn yn gymaint o lwyddiant.

Rwyf hefyd wedi mynd ati i gymryd rhan yn yr ymgyrch i atal gwerthu a defnyddio gwefrau cyfreithlon yn Nhreforys a'r ddinas. Rydym wedi cael 'siop pen' yn gweithredu yn Nhreforys sy'n gwerthu gwefrau cyfreithlon. Mae'r sylweddau hyn yn beryglus a dylid eu gwahardd. Rwyf i a chynghorwyr eraill am gael gwaharddiad ar y gwerthiant a'r defnydd cyn gynted ag mae gennym y pwerau i wneud hynny.

Roeddwn yn falch o ymweld â'r ysgol newydd sbon, gwerth £22m yn Nhreforys. Mae'r cyfleusterau'n anhygoel a bydd ein plant a'r gymuned ehangach yn elwa arnynt. Roeddwn hefyd yn falch o helpu i agor yr adeiladau addysgu newydd yn Ysgol Glyncollen. Gyda'r rhain roedd ystafelloedd dosbarth modern â'r holl gyfarpar yn disodli'r hen gabanau.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

18/11/2014 - Recriwtio a Dethol

Rwyf wedi bod yn was sifil ers dros 24 blynedd ac yn undebwr llafur ers dros 20 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rwyf wedi gweithio mewn amrywiaeth o feysydd ac yn ddiweddarach wedi arwain nifer o brosiectau blaenoriaeth genedlaethol. Yn benodol, mae hynny'n cynnwys gwasanaethau ar-lein i'r DVLA ac ailgynllunio trwydded yrru'r DU a dogfennau cenedlaethol eraill i'r Swyddfa Gartref.

Rwy'n rheolwr prosiectau a rhaglenni cwbl gymwysedig. Rwyf hefyd wedi ymgymryd â nifer o gyrsiau datblygu ariannol ac arweinyddiaeth a llwyddo ynddynt. Rwy'n ymroddedig i ddysgu gydol oes.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roeddwn yn falch iawn o ddod yn arweinydd Dinas a Sir Abertawe eleni. Penderfynais gadw'r portffolio cyllid heriol a'i gyfuno â'r portffolio strategaeth i sicrhau cyfeiriad clir a chrëwyd pwyslais sy'n canolbwyntio ar gyflwyno. Ers cymryd awenau'r arweinydd, rwyf wedi dechrau ar ailddatblygiad uchelgeisiol iawn o ganol y ddinas a chyflwyno rhaglen fasnachol i'r cyngor a fydd yn golygu y bydd y cyngor yn dychwelyd i adeiladu tai cyngor newydd a dechrau creu ynni adnewyddadwy a mentrau masnachol eraill o bosibl. Efallai y bydd hyn yn ein helpu i godi adnoddau ychwanegol i fuddsoddi mewn gwasanaethau allweddol fel Addysg a Gofal Cymdeithasol a threchu tlodi mewn ffordd uniongyrchol a mesuradwy iawn.

Rwyf wedi bod yn ddiolchgar iawn cael adolygiadau ardderchog o'n Hadrannau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ac adroddiad cadarnhaol iawn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a ddangosodd fod y cyngor hwn bellach yn un o'r perfformwyr cryfaf yng Nghymru.

Rwy'n edrych ymlaen at gynyddu cyflymder a graddfa newid yn Abertawe a gwneud Abertawe'r ddinas ac awdurdod arweiniol yng Nghymru, gan ddarparu gwasanaethau ardderchog i bobl Abertawe.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £32,000 Aelod y Cabinet (Cyllid) cyn 17 Medi 2014
Cyflog Uwch: £53,000 Arweinydd ac Aelod y Cabinet (Cyllid a Strategaeth) o 17 Medi 2014.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad**: | 04.06.15 |
|---|---|